

Cofnodion/Minutes

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

| | | |
|---|----------|-----------------------|
| Dyddiad/Date: | 10/10/22 | am 7:00 yh/ at 7:00pm |
| Gynhaliwyd / Held at Y Ganolfan, Abergynolwyn. | | |
| Pressennol/present: Y Cadeirydd/Chair:- Robert Jones, a'r Cynghorwyr:- Bethan Lawton. Emrys Thompson .Elwyn Evans. Miriam Webb, Gwynedd Roberts. | | |
| Ymddiheuriadau/Apologies: Eleri Pw Steve Lewis | | |
| Datgan diddordeb/declare an interest. Neb/None | | |

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd
2. Cafwyd y cofnodion yn gywir/ minutes were received, Cynigwyd gan E Th ac eilwyd gan M W.

3. Cae Chwarae. Dim iw adrodd

4. Cytuno i dalu am waith torri gwair ac yn y blaen

Cae Chwarae £160 x 2 doriad = £ 320
Mynwent y LLan £520 x 2 doriad = £1040
Y Fedw £420 un toriad = £ 420 Cyfanswm £ 1780

5. Mynwentydd yn daclus iawn, Cais am gladdu llwch Pat Mc Namara 24/10/22 am 10.45am

6. Llwybrau. Sam Hollingsorth eisiau gwybodaeth am unrhyw wariant sydd angen am eu bod yn ceisio am grant i lwybrau yr ardal.
Emrys yn adrodd ar raglan Gwaith Llwybyr 20. Codwyd fod stepiau llwybyr Meriafal eisiau sylw am eu bod yn anghyson mewn uchder. Codwyd fod angen sylw i lwybyr trwy goed y Fedw.

7. Mike Christianson wedi dod a sylw fod y toiledau cyhoeddus mewn cyflwr is raddol iawn, paent yn dod yn rhydd ar urinals yn llawn ysbwriel. Nodwyd ein pryderon gan ein bod yn cyfrannu £2000 i Cyngor Gwynedd iw cadw ar agor. 10 toiled o fewn Gwynedd wedi cael gwellianau ond mynegwyd y byddai Abergynolwyn beryg yn bell i lawr y rhestr i dderbyn yr un sylw er gwelliannau, codi pwysau ar Cyngor Gwynedd ynghlyn ar broblem trwy Beth.
Rydym yn edrych ar y sefyllfa o beidio cael Toiledau dros y Gaeaf gan nad yw'r dafarn ar agor, oedd yn darparu gwasanaeth dros misoedd y Gaeaf. Trafodwyd am drafodaeth gyda'r Neuadd a oedd posibilrwydd o gael defnydd yno.

8. Adroddiad o'r Gadair: Wedi cael gair personol gyda Mabon ap Gwynfor yn anffurfiol, ynglyn a gwasanaeth teleffon a band eang yr ardal ond heb gyflwyno dim yn ffurfiol .gan gyfeirio at system deffon yr ardal a blychau ffôn yn gyffredinol. Fe glywais yn eitha sydyn yn lleol fod yna waith wedi cychwyn ar y mast Tetra i'r gwasanaethau cyhoeddus yn Tynybryn, Llanfihangel. Mae wedi dod i'r amlwg er y gwariant eisioes yna, nad oedd yn darparu dim i'r gwasanaeth yn lleol. Mae son fod yna uwchraddio sylweddol yn dod yno, a chyda gobaith y gwellith y signal mobile i'r Cwm.Byddai hynny yn tynnu pwysigrwydd o gael ciosg ar amser argyfwng, i'r ardal hon. Gobeithwn fod y sibrydion yn wir. Adroddodd ei fod wedi mynychu gwasanaeth o goffad i'r Frenhines Elizabeth yr 2il yn Eglwys Abergynolwyn

9. Adroddiad Beth Lawton o Gyngor Gwynedd. Mae yn cyfarfod a'r Bwrdd lechyd yfory. Holi os oes yna gwynion gyda'r gwasanaeth a ddarperir o Safle lechyd Tywyn. Adroddwyd fod yn anodd cael apwyntiad yno yn enwedig yn sydyn. Mae am roddi pwysau arnynt am ddarpariaeth o fwy o ddoctoriaid. Mae y gwasanaeth Nurse Practitioner i weld yn gweithio. Derbyniwyd llythur gan deulu Baxter o Abergynolwyn yn cwyno ar niferoedd tai gwag yn y Pentre. Erfynodd ar bawb roddi mewnbwn i'r ymgynghoriad Tai gwag o fewn Gwynedd, ar pwysigrwydd i gael ymateb. Rhaglen torri gwair ochor ffordd i ddechrau yn fuan. Ffyrdd A a B yn unig.

10. Adroddiad Trysorydd. Mae angen llythur wedi eu arwyddo i gadarnhau ein dymuniad I Gwynedd wneud yr adroddiad Mewnol inni.
Talu I Arfon Owen £500 am agor Bedd yn y Llan (Joyce Evans)
Angen talu cyngor Gwynedd £107 am yr etholiad.
Wedi derbyn £5762.62 sef ail raniad or precept blynyddol.
Talu £75 i Major and Evans Aberystwyth am waith PAYE Eileen Jones , cyn Clerc.

11. Adroddiad cleric, Gareth Smith, 4 Heol y Dwr wedi anfon ynglyn a Japanese knotweed ar lan afon Gwernol. Mae mewn trafodaethau gyda contractiwr sydd ac amcangyfrif o £150 y flwyddyn am y gwaith. Gofynwyd iddo gysylltu a NRW i weld pa ymateb a gai.
Ebost gan Siwan Evans ynglyn a platform digidol i'r ardal ,ond cytunwyd a oedd yn berthnasol gan fod y darpariaeth digidol mor wael yn lleol.
Cyngor Gwynedd: wedi anfon llythyr yn cyferio at 'draft proposal Mobility issues'. Hefyd wedi anfon arwyddion ynglyn a'r fflw adar. Maent eisioes wedi er roi i fyny ar y bwrdd hysbysu.

12. Blychau Ffôn: Galwadau argyfwng yn unig Ty'n y Cornel a chroesffordd Llanfihangel ddim yn gweithio

13. Swydd Clerc: Dim i'w adrodd.

14. Cyngor Gwynedd: (Rhaglen waith) wedi cyfeirio ati yn adroddiad Beth

15. Ceisiadau am arian: Urdd Glanllyn- Dim mantolen. Elwyn a Miriam yn cynnig

yr un taliad a Ffermwyr Ifanc. Ar ol pleidlas,ni chafodd ei basio gan nad oedd mantolen a bod ein canllawiau yn nodi nag ydym yn cyfrannu at geisiadau di Fantolen. Elwyn eisiau edrych ar y sefyllfa pan ddaw y Cyfarfod Blynyddol. Hope House: Dim mantolen eto. Cerebral Palsy Cymru ,dim mantolen eto. Eisteddfod Abergynolwyn gyda mantolen. Cynnig yr un taliad o £150 fel yr arfer.

16. Un Llais,dim cyfarfod oherwydd angladd y Frenhines

17. Safle Treftadaeth: Gwynedd Roberts wedi derbyn sticeri ffenestri gan Gwenan, 2 yn y Ganolfan ac eraill yn Stesion Abergynolwyn a Warf Tywyn. Llechen fach yn cael ei danfon i GR i'w gosod ar wal y Ganolfan. Mike Christianson ynawyddys i'r Cyngor barhau a cynllyn ynglyn a wagen chwarel i'w Arddangos yn y pentre. Beth a Gwynedd am godi pam fydd y cyfarfod nesa efo Cyngor Gwynedd i holi os fydd yn bosib iddynt edrych mewn i hyn os fydd Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddianus denu grantiau.

18. Cartref Mari Jones. Dim i'w adrodd gan fod pethau yn edrych yn sefydlog yno, ond dim arwydd wedi dod i'r amlwg eto o Llanycil.

19. Cynllun gwella hawliau tramwy: Dim, gan fod amser ymateb wedi mynd heibio oherwydd ni chafwyd cyfarfod mis ynghynt o ganlyniad i angladd y Frenhines.

Unrhyw fater arall. /Any other matters. Dim/None

Cyfarfod yn dod i ben am :- 8.30

Meeting closed at :- 8.30

| | |
|-----------------|--------------------|
| Cyfarfod nesaf: | 14/11/2022 @7:00yh |
| Next meeting: | |

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com